

Diffodd y galwadau diangen: Ymatebion Awdurdodau Tân ac Achub i Signalau Tân Dieisiau

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Hydref 2023



Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2023

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cynnwys

1	Cyflwyniad	4
2	Canfyddiadau allweddol o adolygiadau lleol	11
3	Edrych tua'r dyfodol	22
4	Enghreifftiau o ardaloedd eraill	24
	Atodiadau	
1	Dull a methodoleg archwilio	27



Cyflwyniad



01

Gan fyfyrio ar adolygiadau diweddar, mae Archwilio Cymru yn ystyried sut y gall lleihau larymau diangen a goresgyn heriau allweddol helpu wrth ehangu rôl diffoddwyr tân

- 1 Yn ystod 2022-23 fe wnaeth Archwilio Cymru adolygu'r ffordd y mae'r tri Awdurdod Tân ac Achub (ATA) yng Nghymru'n rheoli galwadau tân diangen. Fe wnaethom archwilio galwadau tân diangen oherwydd y niferoedd sylweddol y mae ATAau yn ymateb iddynt a'r effaith ganlyniadol ar adnoddau ATAau. Fe ganolbwyntiom ni'n bennaf ar eu dull o leihau'r ymatebion i safleoedd annomestig ond fe wnaethom hefyd ystyried effaith gyffredinol galwadau diangen ar bob ATA. Roedd ein harchwiliad yn cynnwys adolygu polisïau ATAau, sut y datblygwyd y rhain a sut y maent yn cael eu rhoi ar waith. Fe wnaethom hefyd adolygu sut y mae ATAau yn rheoli, yn monitro ac yn gwerthuso perfformiad i lywio gwelliant.
- 2 Mae'r adroddiadau sy'n crynhoi'r canfyddiadau lleol ar gyfer pob ATA wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan.
 - [Adroddiad Gogledd Cymru](#)
 - [Adroddiad Canolbarth a Gorllewin Cymru](#)
 - [Adroddiad De Cymru](#)
- 3 Mae'r crynodeb cenedlaethol hwn yn amlygu ein canfyddiadau allweddol ac yn darparu darlun cymharol o berfformiad ledled Cymru.


Beth yw galwadau diangen a pham eu bod yn bwysig

Diffiniad a mathau

- 4 O fewn System Cofnodi Digwyddiadau (IRS) y Swyddfa Gartref, caiff galwadau diangen eu categorio'n dri math:
 - **Maleisus** – galwad a wnaed gan fwriadu cael ymateb i ddigwyddiad yn gysylltiedig â thân nad yw'n bodoli.
 - **Â bwriad da** – galwad a wnaed â phob ewyllys da gan feddwl y byddai angen ymateb.
 - **Oherwydd cyfarpar** – galwad a ysgogwyd gan larwm tân neu offer diffodd tân (gan gynnwys cael ei hysgogi'n ddamweiniol).
- 5 Mae **Arddangosyn 1** yn dangos, yn genedlaethol, mai galwadau diangen 'oherwydd cyfarpar' yw'r categori mwyaf, gan roi cyfrif am ychydig o dan 60% o gyfanswm y galwadau diangen.¹ Mae'r data hwn yn cynnwys galwadau diangen domestig ac annomestig.

1 Sylwer – mae hyn yn cynnwys galwadau tân domestig ac annomestig yr ymatebwyd iddynt oherwydd y modd yr adroddir ar ddata.


Arddangosyn 1: cyfran o gyfanswm y galwadau diangen yng Nghymru yn ôl math, 2021-22



Ffynhonnell: [StatsCymru](#)

- Caiff galwadau diangen oherwydd cyfarpar eu hachosi'n nodweddiadol gan systemau Larwm Tân Awtomatig (AFA). Rhwydweithiau o synwryddion mewn adeiladau sy'n gysylltiedig â system larwm yw'r rhain. Mae'r larymau'n gysylltiedig â Chanolfannau Derbyn Larymau (ARC). Oherwydd y dechnoleg sy'n golygu nad oes angen rheoli ar y safle, gall Canolfannau Derbyn Larymau fod wedi'u lleoli yn unrhyw ran o'r byd. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i Ganolfannau Derbyn Larymau gofrestru gyda phob ATA yn yr ardaloedd y maent yn gweithredu ynddynt. Mae **Arddangosyn 2** yn disgrifio proses Larwm Tân Awtomatig pan gaiff ei hysgogi.

Arddangosyn 2: Proses Larwm Tân Awtomatig



Ffynhonnell: Archwilio Cymru

- 7 Pan geir galwad ddiangen trwy Larwm Tân Awtomatig, cyfeirir yn nodweddiadol at hyn fel Signal Tân Dieisiau (UwFS). Gan bod UwFS yn rhoi cyfrif am y gyfran fwyaf o alwadau diangen, dyma yw'r ffocws allweddol ar gyfer gweithgarwch lleihau ledled y DU². O ganlyniad, mae prif ffocws ein hadolygiadau wedi bod ar ddulliau'r tri ATA yng Nghymru o leihau UwFS, gan hefyd gwmpasu mathau eraill o alwadau diangen.

Gofynion y fframwaith cenedlaethol

- 8 Mae Fframwaith Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gwasanaethau Tân yn nodi lleihau galwadau diangen fel arbediad effeithlonrwydd allweddol sydd ar gael i ATAAu³. Mae'n nodi bod ymateb i alwadau diangen yn dwyn costau ariannol a chostau cyfle sylweddol, i ATAAu a deiliaid adeiladau, ac nad yw'n dwyn unrhyw fudd o gwbl. Yn 2021-22, roedd oddeutu hanner yr holl ddigwyddiadau yr ymatebodd ATAAu iddynt yn alwadau diangen, sy'n dangos y baich sylweddol y maent yn ei roi ar wasanaethau tân ac achub. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi yn y Fframwaith Cenedlaethol y dylai ATAAu 'Adnabod prif ffynonellau galwadau tân diangen a chymryd pob cam rhesymol ac ymarferol i leihau eu nifer'.

2 Er enghraifft, gweler [canllawiau Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân](#)


3 [Llywodraeth Cymru, Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub 2016, Tachwedd 2015](#)

- 9 Wrth lunio'u dull, rhaid i ATAAu ddangos hefyd eu bod yn rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith, yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i ATAAu ddarparu gwasanaethau sy'n bodloni disgwyliadau'r pum ffordd o weithio. Er enghraifft, trwy:
- daro cydbwysedd rhwng ymatebion byrdymor a'r angen i gyflawni blaenoriaethau hirdymor;
 - defnyddio dull integredig, gan sicrhau eu bod yn ystyried sut y gall eu gwaith effeithio ar bob un o'r nodau llesiant cenedlaethol, ar eu hamcanion llesiant unigol hwy, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill;
 - cynnwys pobl â diddordeb yn eu gwaith, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y maent yn gweithredu ynddi;
 - cydweithio gydag eraill i helpu i gyflawni eu hamcanion llesiant; a
 - gweithio mewn modd ataliol i atal problemau rhag digwydd yn y lle cyntaf, neu rhag gwaethygu.
- 10 Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio'n darparu fframwaith i lywio trwy brosesau penderfynu a gallant helpu ATAAu i optimeiddio'u dulliau o reoli galwadau diangen. Yn ei dro, gall rheoli'r galwadau diangen hyn yn effeithiol helpu ATAAu i greu'r capasiti y mae ei angen i wireddu uchelgeisiau ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer ehangu rôl a gwaith gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru.

Galw dros amser

- 11 Mae data sy'n dangos cyfanswm y galwadau diangen yr ymatebwyd iddynt gan bob ATA yn cael ei gofnodi a'i gyhoeddi'n flynyddol gan Lywodraeth Cymru. Mae **Arddangosyn 3** yn dangos bod ATAAu wedi ymateb i fwy na 15,000 o alwadau tân diangen yn 2021-22, gyda thros hanner y rhain yn ardal ATA De Cymru. Mae'r data hwn yn cynnwys galwadau diangen domestig ac annomestig.


Arddangosyn 3: Nifer y galwadau tân diangen yr ymatebwyd iddynt yn flynyddol gan ATAAu Cymru ers 2008-09



Ffynhonnell: [Tanau, Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig a chamrybuddion tân a fynychwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Cymru \(llyw.cymru\)](http://Tanau.Digwyddiadau.Gwasanaeth.Arbennig.a.chamrybuddion.tan.a.fynychwyd.gan.Wasanaeth.Tan.ac.Achub.Cymru.(llyw.cymru))

- 12 Cafwyd y gostyngiad mwyaf yn nifer y galwadau diangen rhwng 2008-09 a 2021-22 yng Ngogledd Cymru, lle cofnodwyd gostyngiad o 41%. Dros yr un cyfnod, gostyngodd galwadau diangen yn Ne Cymru 14%, ac fe brofodd Canolbarth a Gorllewin Cymru ostyngiad o 9%.
- 13 Mae ein dadansoddiad, a grynhoir yn **Arddangosyn 4**, yn dangos mai ATA Gogledd Cymru sydd â'r nifer isaf o alwadau diangen am bob 1,000 o bobl.

Arddangosyn 4: Galwadau diangen am bob 1,000 o bobl, rhwng 2008-09 a 2021-22



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o [Tanau, Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig a chamrybuddion tân a fynychwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Cymru \(llyw.cymru\) yn ôl amcangyfrifon poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(hyd at 2020\) a ffigyrau'r Cyfrifiad ar gyfer 2021.](#)

- 14 Mae nifer y galwadau wedi'u hysgogi gan Larymau Tân Awtomatig mewn unrhyw flwyddyn benodol, i raddau mwy helaeth, y tu hwnt i reolaeth ATAau. Er bod ganddynt rôl o ran addysgu a chynghori pobl gyfrifol ynghylch sut y gellir lleihau galwadau a ysgogir yn ddieisiau, yn y pen draw y cwbl sydd wir o fewn rheolaeth ATAau yw sut y maent yn dewis ymateb. Mae'r adran nesaf o'r adroddiad hwn yn egluro'r gwahanol ddulliau a ddefnyddir gan bob ATA.



Canfyddiadau allweddol o adolygiadau lleol

02

Amgylchedd gweithredu sy'n gryn her

- 15 Ni all galwadau diangen gael eu hystyried ar wahân. Mae eu heffaith ar adnoddau ATAau yn bellgyrhaeddol a gall gwahanol ddulliau o leihau eu mynychder, mewn gwahanol ffyrdd, gael effaith ddilynol ar ymateb i ddigwyddiadau a diogelwch tân. Felly mae deall amgylchedd gweithredu ATAau a'u heriau o ran cyllid yn allweddol i asesu effaith galwadau diangen a'r opsiynau sydd ar gael i leihau eu nifer.
- 16 Mae ATAau wedi gorfod darparu o fewn cyllidebau sylweddol is dros y blynyddoedd diwethaf ac, fel pob corff cyhoeddus, maent yn parhau i addasu a dod o hyd i ffyrdd mwy effeithlon o ddarparu gwasanaethau i ymdrin â'u pwysau ariannol. Mewn termau real⁴, fe brofodd ATAau ostyngiad sylweddol mewn gwariant refeniw rhwng 2009-10 a 2021-22⁵:
- Profodd ATA Gogledd Cymru ostyngiad o 6.3% (£2.6 miliwn) mewn gwariant refeniw.
 - Profodd ATA Canolbarth a Gorllewin Cymru ostyngiad o 0.9% (£0.5 miliwn) mewn gwariant refeniw.
 - Profodd ATA De Cymru ostyngiad o 16.8% (£15 miliwn) mewn gwariant refeniw.
- 17 Dros yr un cyfnod, gostyngodd cyfanswm y galwadau a gafwyd ar draws ATAau 16.6%⁶ ac fe ostyngodd nifer y digwyddiadau yr ymatebwyd iddynt 25%⁷. Mae'r gostyngiad yn y digwyddiadau yr ymatebwyd iddynt yn adlewyrchiad o'r ffaith bod ATAau yn newid eu pwyslais o ymateb i ddigwyddiadau i atal tanau a gwella diogelwch.
- 18 Gostyngodd nifer y staff a gyflogir gan bob ATA rhwng 2009-10 a 2021-22 hefyd, fel a nodir yn **Arddangosyn 5**:

4 Mae hyn yn seiliedig ar ddata Trysorlys EF a gyfrifwyd yn ystod gwaith maes ar gyfer pob adroddiad lleol (2021-22) ac nid yw mewn termau real cyfredol. Bydd hyn yn wahanol oherwydd lefelau chwyddiant cyfredol.

5 StatsCymru, [Alldro refeniw yn ôl awdurdod](#)

6 StatsCymru, [Galwadau a dderbynnir gan wylfa rheoli tân cyfwerth ag amser llawn yn ôl math o alwad a blwyddyn ariannol](#)

7 StatsCymru, [Tanau, Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig a chamrybuddion tân a fynychwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Cymru](#)

Arddangosyn 5: Cyfrif pennau personél ATAAu yn ôl math o gyflogaeth, rhwng 2009-10 a 2021-22

Rôl	2009-10	2021-22	Newid
Staff amser cyflawn mewn lifrai	1,658	1,474	-11.1%
Staff ar ddyletswydd yn ôl y galw	1,963	1,642	-16.4%
Staff rheoli tân	124	95	-23.4%
Staff anweithredol	643	680	5.8%
Yr holl staff	4,388	3,891	-11.3%

Ffynhonnell: [StatsCymru](#)

Lleihau galwadau diangen – sut mae dull da'n edrych

19 19 Mae ein hadolygiadau wedi canolbwyntio ar werthuso effaith dewisiadau polisi pob ATA a sut y mae'r rhain yn effeithio ar eu hadnoddau. Yn y pen draw, mae cymhwyso meini prawf i benderfynu a ydynt yn mynd i ymateb i alwadau sydd dan amheuaeth o fod yn rhai diangen yn golygu ei bod yn ofynnol i ATAAu ffurfio barn yn seiliedig ar risg. Felly fe wnaethom asesu pa mor effeithiol y mae pob ATA yn gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar risg i optimeiddio ei ddull – sut y mae'n casglu ac yn defnyddio cudd-wybodaeth a data; sut y mae'n cyfleu ei ddewisiadau polisi; ac, yn bwysig, sut y mae'n gwybod bod pethau'n gweithio fel y dylent, ac yn gweithio cystal ag y gallent.

Bydd dull da o reoli galwadau tân diangen:

- yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda am leoliadau, achosion ac effeithiau galwadau diangen;
- wedi'i nodi mewn cynllun neu strategaeth eglur a phriodol sy'n dangos sut y bydd yr ATA yn gwella'i berfformiad ar alwadau diangen;
- wedi'i lunio yn seiliedig ar risg a thystiolaeth addas;
- yn cael ei werthuso'n rheolaidd a pherfformiad yn cael ei fonitro; ac
- yn helpu i leihau nifer y galwadau diangen yr ymatebir iddynt.



Ffynhonnell: Archwilio Cymru

Nid oes gan yr un Awdurdod ddull cynhwysfawr o feintioli effaith ymateb i alwadau diangen

- 20 Fel gydag unrhyw ymateb gan ATAau i unrhyw ddigwyddiad, ceir effeithiau ariannol, gweithredol, amgylcheddol ac effeithiau ar ddiogelwch wrth ymateb i alwadau diangen. Canfuom nad oes gan yr un ATA ddull cynhwysfawr o feintioli effaith ymateb i alwadau diangen ar yr adeg hon.
- 21 Mae hyn yn bwysig oherwydd, gyda'i gilydd, mae effeithiau ymateb i alwadau diangen yn sylweddol ac maent yn amlygu pwysigrwydd bod â dull effeithiol o leihau eu mynychder. Gall unrhyw welliant mewn perfformiad yn y cyd-destun hwn helpu ATAau i reoli'r pwysau ar eu hadnoddau yn well a chynyddu capasiti i ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol a thasgau eraill sy'n flaenoriaeth.
- 22 Canfuom fod pob un o'r tri ATA yn cyflwyno peth gwybodaeth i bwyllgorau allweddol ynghylch galwadau diangen. Fodd bynnag, nid yw gwybodaeth wastad yn cael ei chyflwyno mewn fformat sy'n gyson â pholisïau lleihau galwadau diangen a fyddai'n ei gwneud yn bosibl dod i gasgliad ynglŷn ag effeithiolrwydd. Ni chanfu ein hadolygiad o gofnodion cyfarfodydd yr Awdurdod llawn a Phwyllgorau Archwilio yn yr holl ATAau dros y ddwy flynedd ddiwethaf ryw lawer o dystiolaeth bod Aelodau'n mynd ati'n weithredol i geisio herio perfformiad ar alwadau diangen i helpu i gefnogi gwelliant ariannol a gweithredol. Heb ddangos yn gynhwysfawr beth yw eu heffaith ar adnoddau a'r gostyngiad ar y cyfan mewn ymatebion i alwadau diangen, nid yw'r wybodaeth hon mor gyflawn ag y dylai fod. Mae hyn yn cyfyngu ar allu Aelodau i graffu ar berfformiad.

Effaith ariannol

- 23 Mae effaith ariannol gyffredinol ymateb i alwadau diangen yn anodd i'w meintoli. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai cost anfon injan dân i ymateb i alwad ddiangen yn debyg os nad union yr un faint â chost anfon un i ymateb i ddigwyddiad go iawn, gan bod criwiau'n cael eu hanfon gan ddisgwyl bod tân go iawn. Mae'r gost yn amrywio fesul ATA ac fe'i pennir gan ystod o ffactorau gan gynnwys daearyddiaeth, pellter teithio a phan un a yw'r ymateb yn un gan ddiffoddwyr amser cyflawn ynteu criw sy'n rhan o system dyletswydd yn ôl y galw.
- 24 Mae gwybod faint y mae'n ei gostio i ymateb i alwadau diangen yn bwysig i ddeall yr effaith ar adnoddau ar y cyfan. Yng nghyd-destun yr hyn y mae ATAau yn ei wynebu o ran amgylchedd gweithredu sy'n gryn her a chyllidebau sy'n lleihau, gall hyn helpu i ysgogi effeithlonrwydd a darparu gwybodaeth well i oleuo'r penderfyniadau anodd posibl sy'n wynebu aelodau ATAau wrth iddynt ymgodymu â'r ychydig flynyddoedd nesaf.

- 25 Canfuom fod meintioli'r effaith ariannol pan fo diffoddwyr tân amser cyflawn yn ymateb i alwadau diangen yn anodd am bod costau gweithgareddau'n cael eu hamsugno i mewn i'w cyflogau ar y cyfan. Dengys ein hymchwil fod ATAau mewn rhannau eraill o'r DU fel rheol wedi cyfrifo mai oddeutu £350-400 yr awr yw cost ymateb⁸.
- 26 Mae effaith ymateb i alwadau diangen ar gostau mewn ardaloedd gwledig yn haws i'w meintioli'n gywir. Y rheswm dros hyn yw bod ATAau yn gallu defnyddio'r ffioedd galw allan y maent yn eu talu i ddiffoddwyr ar alwad fel y sail ar gyfer eu cyfrifiad. Mewn gwirionedd, serch hynny, nid oes llawer o alwadau diangen yn digwydd mewn ardaloedd gwledig – mae'r mwyafrif o alwadau diangen yn digwydd mewn ardaloedd adeiledig, trefol lle mae gorsafodd tân yn bennaf yn rhai â chriwiau amser cyflawn neu griwiau dydd. Er enghraifft, amcangyfrifodd ATA Gogledd Cymru yn 2014 fod ei ddiffoddwyr tân ar alwad wedi ymateb i 15% yn unig o gyfanswm y galwadau wedi'u hysgogi gan Larymau Tân Awtomatig yr ymatebodd iddynt. Ymatebwyd i'r 85% sy'n weddill gan ei griwiau amser cyflawn, ac mae wedi cael traferth meintioli effaith hynny ar gostau. Mae ATAau Canolbarth a Gorllewin Cymru a De Cymru wedi cyfrifo amcangyfrifon a chostau unedau fel sail ar gyfer eu dadansoddiad o gostau ar gyfer criwiau amser cyflawn. Mae hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth iddynt am yr effaith o ran costau ar eu hadnoddau.
- 27 I daro'n ôl yn erbyn effaith ariannol ymateb i alwadau diangen, mae rhai ATAau yn Lloegr wedi rhagnodi taliadau i safleoedd sy'n cynhyrchu galwadau diangen lluosog. Er enghraifft, mae ATA Cleveland yn codi £345 (heb gynnwys TAW) ar safleoedd o'u pumed alwad.⁹ Yn yr un modd, mae ATA Glannau Humber yn codi isafswm o £365.75 o'r bedwaredd alwad ddiangen.¹⁰ Canfuom nad oes gan ATAau yng Nghymru ryw lawer o awch i fynd ar drywydd yr opsiwn i godi ar safleoedd problemus, gyda llawer o swyddogion yn nodi diffyg eglurder ynghylch y sail gyfreithiol ar gyfer gwneud hynny. Mae Cyngor y Prif Swyddogion Tân wedi cyhoeddi canllawiau ynghylch codi tâl a chamau gorfodi i helpu i leihau galwadau diangen.¹¹

8 Er enghraifft, [tâl safonol ATA Dyfnaint a Gwlad yr Haf](#) o £364.27 neu amcangyfrif ATA Swydd Buckingham o £305 a TAW.

9 ATA Cleveland, [Fire Alarms](#)

10 ATA Glannau Humber, [Call out charges 2022-23](#)

11 CFOA_Guideline_for_the_Reduction_Brochure_June__2014.pdf (nationalfirechiefs.org.uk)

Gweithredol

- 28 Ar wahân i'r effaith ariannol, mae ymateb i alwadau diangen yn tarfu'n ddiangen ar waith ATAAu. Gall ddargyfeirio pobl oddi wrth hyfforddiant, gwaith atal, neu waith ymgylfarwyddo â safleoedd, sydd i gyd yn dasgau hollbwysig er mwyn i griw gynnal gallu gweithredol. Mae tarfu ar hyfforddiant yn arbennig o gostus, fel a amlygwyd gan adroddiad diweddaraf Llywodraeth Cymru¹². Mae'r adroddiad yn nodi risg o beidio â chynnal cymwyseddau staff pan fo criwiau'n ymateb yn rheolaidd i alwadau diangen.
- 29 Gallai'r effaith weithredol fod yn sylweddol ar ddiffoddwyr tân ar alwad, y mae eu capasiti i fynychu hyfforddiant yn llai o'i gymharu â chriwiau amser cyflawn. Hefyd, gan bod y system dyletswydd yn ôl y galw'n dibynnu ar ewylllys da cyflogwyr i ryddhau staff i ymateb i alwad yn ystod eu horiau gwaith, gallai cynyddu ymatebion i alwadau diangen atal busnesau rhag cefnogi eu staff i ymgymryd â rôl fel rhan o'r system dyletswydd yn ôl y galw. Gallai hyn gael effaith negyddol ar gadw staff.
- 30 I'r gwrthwyneb, amlygodd ein cyfweiliadau y gallai fod cymhelliad gwrthnysig yn gysylltiedig â lleihau galwadau diangen, sy'n effeithio ar staff sy'n rhan o'r system dyletswydd yn ôl y galw. O ystyried bod yr arian a gaiff ei arbed o leihau galwadau diangen mewn ardaloedd gwledig yn bennaf ar ffurf ffioedd is am alwadau allan ar gyfer diffoddwyr tân ar alwad, gallai fod canfyddiad negyddol am leihau ymatebion i ddigwyddiad. Er enghraifft, mae'n lleihau'r gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer staff sy'n rhan o'r system dyletswydd yn ôl y galw, a all o bosibl waethygu heriau recriwtio a chadw. Yn gymwys, fe bwysleisiodd yr holl swyddogion y gwnaethom ni gyfwrdd â hwy nad yw'r cymhelliad hwn, ynddo'i hun, yn negyddu'r angen i leihau galwadau diangen. Er hynny, mae'n amlygu pwysigrwydd cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac ystyried y pum ffordd o weithio wrth fynd i'r afael â mater galwadau diangen. Nid yw hyn yn effeithio ar ATA De Cymru i'r un graddau ag eraill, oherwydd y ffaith bod yr holl staff gweithredol, gan gynnwys diffoddwyr tân sy'n rhan o'r system dyletswydd yn ôl y galw, yn cael cyflog.

12 Llywodraeth Cymru, Adolygiad thematig o hyfforddiant gweithredol o fewn Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru, Hydref 2022

Amgylcheddol

- 31 Fel a nodwyd yn ein hadroddiadau lleol ar Leihau Allyriadau Carbon¹³ yn 2021-22, ceir effeithiau amgylcheddol sylweddol wrth ddarparu gwasanaethau tân ac achub. Mae hyn yn cynnwys defnyddio tanwydd ar gyfer ymateb, yn ogystal ag effaith amgylcheddol teithio gan ddiffoddwyr tân i'w gorsaf. O ystyried bod bron i hanner yr holl ddigwyddiadau yr ymatebodd ATAau iddynt yn 2021-22 yn alwadau tân diangen¹⁴, mae'n faes lle gellid gwneud gostyngiad sylweddol mewn allyriadau carbon. Ar adeg ein hadolygiadau ni, nid oedd ATAau yng Nghymru'n mesur effaith amgylcheddol ymateb i alwadau diangen a sut y gallai lleihau ymatebion gyfrannu at eu hymdrechion i leihau eu hallyriadau carbon.

Diogelwch

- 32 Mae lleihau galwadau diangen yn hollbwysig i leihau risgiau i ddiogelwch. Gallai mynychder galwadau diangen gael effeithiau sylweddol ar y risgiau i ddiogelwch cymunedau, megis risgiau ar y ffyrdd a hunanfodlonrwydd.
- 33 Mae risgiau i ddiogelwch ar y ffyrdd yn bresennol pryd bynnag y mae'r gwasanaethau brys yn ymateb i ddigwyddiad. Gall gyrru ar gyflymder neu dan amodau golau glas achosi risgiau sylweddol i griwiau a defnyddwyr eraill y ffyrdd. Er enghraifft, dengys data, ledled Prydain Fawr, fod 79 o bobl wedi cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol yn 2021, gyda cherbyd brys ar alwad yn ffactor a gyfrannodd at y gwrthdrawiadau hyn.¹⁵ Mae'r risg hefyd yn bresennol ar gyflymder arferol y ffordd, oherwydd maint a phwysau sylweddol injans tân.
- 34 Gall niferoedd uchel o alwadau diangen arwain at hunanfodlonrwydd ymhlith deiliaid adeiladau a dinasyddion hefyd. Er enghraifft, gall arwain at ddiffyg ymateb yn ystod digwyddiad go iawn, gan achosi mwy o risg i'r deiliaid a'r criw sy'n ymateb. Felly mae lleihau galwadau diangen yn helpu i leihau'r risgiau i ddiogelwch criwiau'r ATAau a chymunedau. Canfuom fod gan bob un o'r tri ATA ddealltwriaeth dda am yr agweddau ar alwadau diangen sy'n ymwneud â diogelwch ac effaith galwadau diangen ar ddiogelwch.

13 [Lleihau allyriadau carbon, Archwilio Cymru, 2021-22](#)

14 [Tanau, Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig a chamrybuddion tân a fynychwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Cymru \(llyw.cymru\)](#)

15 [Reported road collisions, vehicles and casualties tables for Great Britain - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

Mae ATAAu yng Nghymru'n mynd ar drywydd lleihau galwadau diangen mewn ffordd gwahanol

- 35 Mae gan bob un o'r tri ATA yng Nghymru ddulliau gwahanol o reoli galwadau diangen. Mae eu priod bolisiau'n canolbwyntio gan mwyaf ar leihau mynychder ac ymatebion yn dilyn galwadau a ysgogir gan Larymau Tân Awtomatig. I grynhoi, cynsail ddechreuol ATA Gogledd Cymru yw peidio ag ymateb i alwadau a ysgogir gan Larymau Tân Awtomatig o safleoedd annomestig, ond gwneud hynny trwy eithriad. Safbwyntiau diodyn ATAAu Canolbarth a Gorllewin Cymru a De Cymru yw ymateb ond ceisio cadarnhau'r rhesymau fesul achos unigol i ddad-ddwysáu eu hymateb. Mae eu priod ddulliau polisi fel a ganlyn:
- Cynsail ddechreuol ATA Canolbarth a Gorllewin Cymru pan geir galwad o Ganolfannau Monitro Larymau yw cadarnhau lefel yr ymateb sy'n ofynnol trwy gynlluniau ymateb rhagderfynedig, a all amrywio o un ymateb gan un injan dân ar gyflymder arferol y ffordd i ddim injan dân o gwbl pan fo asesiad yn dynodi bod digwyddiad yn hynod debygol o fod yn alwad ddiangen. Mae gan staff rheoli tân ddisgresiwn i newid lefel yr ymateb rhagderfynedig trwy asesu gwybodaeth ychwanegol a gasglwyd yn ystod cam herio galwad.
 - Pan fo ATA De Cymru'n cael galwad, anogir staff rheoli i hidlo digwyddiadau trwy herio'r galwr a/neu geisio cadarnhad o'r safle ynghylch natur y digwyddiad a pha un a oes angen i'r gwasanaeth tân ac achub ymateb. Gall hyn wedyn ei gwneud yn bosibl naill ai dwysáu'r ymateb, galw'r injan dân yn ôl, neu atal yr ymateb yn gyfan gwbl. Mabwysiadodd ATA De Cymru bolisi newydd ar gyfer targedu gostyngiadau mewn UwFS o safleoedd sy'n cynhyrchu nifer fawr ohonynt yn 2020. Fe greodd hyn system ac iddi bedwar cam ar gyfer monitro, gan adeiladu ar ddata a gofnodwyd gan griwiau ymateb. Mae pob cam yn seiliedig ar nifer y galwadau a gynhyrchir gan bob safle mewn cyfnod treigl o 12 mis. Mae gweithgor UwFS hefyd yn cefnogi ymyriadau i helpu i leihau nifer y galwadau gan dramgwyddwyr mynych.
 - Polisi ATA Gogledd Cymru yw peidio ag anfon ymateb brys i alwadau a ysgogir gan Larymau Tân Awtomatig oni bai y ceir galwad 999 ategol yn cadarnhau bod tân. Mae eithriadau i'r polisi hwn yn cynnwys safleoedd domestig ac unedau eiddo risg-uchel. Cafodd polisi cyfredol yr Awdurdod ei fabwysiadu ym mis Medi 2022, yn dilyn adolygiad. Fe ganolbwyntiodd yr adolygiad ar broffil risg esblygol oherwydd newidiadau ym meddiannaeth adeiladau o ganlyniad i'r pandemig. Er enghraifft, llai o debygolrwydd y byddai rhywun yn bresennol mewn adeilad cyhoeddus y byddai disgwyl iddynt fel arfer wneud galwad 999 ategol i gadarnhau tân. Heblaw am adolygu rhai eithriadau, mae'r polisi cyfredol at ei gilydd yn atgyfnerthu'r dull a fabwysiadwyd yn 2014.

- 36 Mae nifer y galwadau diangen y mae ATAau yn eu cael o Larymau Tân Awtomatig yn codi ond mae gwahaniaethau yn y ffordd y mae awdurdodau'n ymateb. Er enghraifft, ledled Cymru bu cynnydd o 13% yn nifer y galwadau diangen o Larymau Tân Awtomatig (yn rhai domestig ac annomestig) a gafwyd gan ATAau ers 2008-09. Yn Ne Cymru y bu'r cynnydd mwyaf, lle cafodd yr ATA 25% yn fwy o alwadau diangen o Larymau Tân Awtomatig yn 2021-22 o'i gymharu ag yn 2008-09.¹⁶ Fodd bynnag, yn ATA Canolbarth a Gorllewin Cymru bu gostyngiad o 2% yn nifer y galwadau diangen ar y cyfan o Larymau Tân Awtomatig dros yr un cyfnod. Mae **Arddangosyn 6** yn dangos nifer y galwadau diangen wedi'u hysgogi gan Larymau Tân Awtomatig a gafodd ATAau, gan ddefnyddio 2008-09 fel llinell sylfaen.

Arddangosyn 6: Nifer y galwadau diangen wedi'u hysgogi gan Larymau Tân Awtomatig a gafodd ATAau


Cyfanswm y galwadau wedi'u hysgogi gan Larwm Tân Awtomatig (AFA) a gafwyd	2008-09	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22
Cymru Gyfan	12,395	13,130	13,598	12,897	13,955
Gogledd Cymru	3,286	3,057	3,271	2,984	3,501
Canolbarth a Gorllewin Cymru	3,564	3,728	3,677	3,641	3,506
De Cymru	5,545	6,345	6,650	6,272	6,948

Ffynhonnell: [Galwadau a dderbynnir gan wylfa rheoli tân cyfwerth ag amser llawn yn ôl math o alwad a blwyddyn ariannol \(llyw.cymru\)](#)

- 37 Mae dull gwahanol ATA Gogledd Cymru yn golygu ei fod wedi lleihau ymatebion i alwadau diangen o nifer fwy o lawer na'r ddau ATA arall yng Nghymru. Caiff effaith ei ddull ei dangos orau trwy ddadansoddi'r data ar alwadau diangen a ysgogwyd gan Larymau Tân Awtomatig ac ymatebion iddynt, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae **Arddangosyn 7** yn dangos nifer y galwadau diangen y mae pob ATA wedi ymateb iddynt fel cyfran o nifer y galwadau diangen wedi'u hysgogi gan Larymau Tân Awtomatig a gafodd ar y cyfan.

¹⁶ [Galwadau a dderbynnir gan wylfa rheoli tân cyfwerth ag amser llawn yn ôl math o alwad a blwyddyn ariannol \(llyw.cymru\)](#)

Arddangosyn 7: Ymatebion i Larymau Tân Awtomatig mewn unedau eiddo annomestig fel cyfran o nifer y galwadau diangen wedi'u hysgogi gan Larymau Tân Awtomatig a gafwyd, fesul ATA ers 2008-09



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o'r data [Galwadau a dderbynnir gan wylfa rheoli tân cyfwerth ag amser llawn yn ôl math o alwad a blwyddyn ariannol \(llyw.cymru\)](#)

- 38 Mae'n amlwg o **Arddangosyn 7** bod y dulliau a fabwysiadwyd gan bob un o'r tri ATA yn gwneud gwahaniaeth a'u bod i gyd yn lleihau ymatebion i Larymau Tân Awtomatig. Serch hynny, mae'r dulliau polisi gwahanol yn cael lefelau gwahanol o effaith – er enghraifft, mae'r gostyngiad amlwg gan Ogledd Cymru rhwng 2014-15 a 2015-16 wedi digwydd oherwydd ei bolisi diwygiedig ar Larymau Tân Awtomatig. Profodd De Cymru ostyngiad llai yn 2017-18 hefyd.

- 39 Mae hyn yn amlygu bod adolygu a mabwysiadu dull a reolir o ymateb i unedau eiddo annomestig yn gallu gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd heb beryglu risg. Fodd bynnag, mae'r dulliau gwahanol yn codi nifer o gwestiynau allweddol. Er enghraifft, os gall ATA Gogledd Cymru fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg o leihau ei ymatebion mor ddramatig, pam nad yw ATAAu De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru wedi dilyn yr un drefn? Ac, os ystyrir bod lleihau ymatebion i Larymau Tân Awtomatig annomestig yn ormod o risg i gymunedau yn Ne Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru, beth sy'n ysgogi ATA Gogledd Cymru i reoli'r cynnydd posibl hwn yn lefel y risg i gymunedau yn ei ardal?
- 40 Yn y pen draw, cyfrifoldeb pob ATA yw pennu ei barodrwydd i dderbyn risg a tharo cydbwysedd rhwng hyn a'r angen i ddefnyddio adnoddau'n ddarvoudus. Ond o ystyried llwyddiant ATA Gogledd Cymru o ran lleihau nifer y Larymau Tân Awtomatig mewn safleoedd annomestig y mae'n ymateb iddynt pan fo'r galw'n codi, mae cyfleoedd i'r gwasanaethau eraill ddysgu o'r dull yma.
- 41 Cyfleusterau byrddau iechyd sy'n gosod y galw mwyaf ar ATAAu o hyd o ran galwadau diangen a ysgogir gan Larymau Tân Awtomatig. Y rheswm dros hyn yw bod pob un o'r tri ATA yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg o oleuo eu hymateb rhagderfynedig i'r safleoedd hyn ac yn parhau i ganolbwyntio ar gydweithio gyda chydweithwyr yn y byrddau iechyd i hybu gostyngiad mewn galwadau a ysgogir, yn hytrach na mabwysiadu polisi o beidio ag ymateb, neu gymryd camau gorfodi.
- 42 Un o fanteision parhau i ymateb i alwadau diangen a ysgogir gan Larymau Tân Awtomatig mewn unedau eiddo annomestig a nodwyd gan ATAAu Canolbarth a Gorllewin Cymru a De Cymru yw'r cyfle i gasglu cudd-wybodaeth am unedau eiddo i wella eu gwaith atal er mwyn gwella diogelwch tân. Er enghraifft, gall patrwm o alwadau a ysgogir gan Larymau Tân Awtomatig ddynodi adeilad sy'n cael ei reoli'n wael, a all greu mwy o risg i ddiogelwch tân. Er y gallai'r mewnwleidiad yma fod yn ddefnyddiol ynddo'i hun, mae'r dull yn amheus os yw'n golygu bod angen criw o ddiffoddwyr tân ac injan dân i ymateb mewn achos brys ac mae ffyrdd llai adnodd-ddwys o gasglu'r data yma. Er enghraifft, defnyddio timau diogelwch tân ac addysgu busnesau, sy'n gwneud gwaith rheolaidd i archwilio trefniadau diogelwch tân mewn lleoliadau annomestig.
- 43 Yng Ngogledd Cymru, canfu ein hadolygiadau fod polisi'r ATA o beidio ag ymateb (gan mwyaf) i alwadau a ysgogwyd gan Larymau Tân Awtomatig mewn safleoedd annomestig yn anfwriadol yn cynyddu'r pwyslais ar sut y mae timau diogelwch tân ac addysgu busnesau'n datblygu ac yn cyflawni eu rhaglenni gwaith. Fe wnaethom argymhellion a oedd wedi'u bwriadu i wella'r ffordd y mae'r ATA yn defnyddio data ar alwadau wedi'u hysgogi gan Larymau Tân Awtomatig nad ymatebwyd iddynt, i ddarparu ymateb mwy integredig a sicrhau ei fod yn aros gyfuwch â risgiau.



Edrych tua'r dyfodol

03

Y darlun ehangach a newidiadau sydd ar y gorwel

- 44 Ers cyhoeddi ei Fframwaith Cenedlaethol yn 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi cyfeiriad polisi ehangach ar gyfer ATAAu. Mae hyn yn cynnwys ehangu rôl diffoddwyr tân i gefnogi'r system iechyd a gofal cymdeithasol, megis ymateb i gwympiadau lle na chafwyd anafiadau. Cymeradwywyd hyn gan y Cabinet yn 2020. Gall lleihau galwadau diangen helpu i greu'r capasiti ychwanegol y mae ei angen i wireddu'r uchelgais hwn, ond mae hyn yn galw am gydweithio effeithiol ar draws ATAAu, Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus ehangach yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.
- 45 Yn 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hasesiad a oedd yn ystyried a ellid ehangu rôl diffoddwyr tân heb achosi anfantais i'r gwasanaeth tân ac achub craidd. Hyd yn oed heb gyflawni rôl ehangach, daeth yr adolygiad i'r casgliad bod 'angen adolygiad sylfaenol o drefniadau gwaith gorsafoedd i sicrhau bod gweithgarwch yn cael ei amserlennu'n briodol i sicrhau'r allbwn mwyaf'. Canfu dadansoddiad nad oedd unrhyw gapasiti heb ei ddyrannu yn ystod sifft ddydd criwiau amser cyflawn, a fyddai'n cyd-daro ag oriau brig y galw ar gyfer Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru rhwng 7am a chanol dydd.¹⁷
- 46 Nododd Llywodraeth Cymru ddiffyg amser hyfforddi digonol hefyd ac fe arweiniodd hynny at ail adolygiad thematig a ganolbwyntiodd ar hyfforddiant gweithredol¹⁸ Daeth i'r casgliad nad oedd digon o amser hyfforddi ar gael, yn enwedig i ddiffoddwyr tân dan y System Dyletswydd yn ôl y Galw (RDS). Argymhellodd yr adroddiad fod ATAAu yn 'cynnal dadansoddiad heb gyfyngiadau o'r amser sydd ei angen ar ddiffoddwyr tân i hyfforddi'.
- 47 O ystyried yr effaith eang ar draws y gwasanaeth, byddai lleihad mewn ymatebion i alwadau tân diangen yn helpu i gynyddu capasiti, y mae ei angen i helpu i dyfu rôl y diffoddwr tân. Mae hyn ochr yn ochr â gofynion eraill, megis arweinyddiaeth gan uwch swyddogion ac aelodau, cydweithio effeithiol, dadansoddiadau data cadarn, a chraffu effeithiol.

17 Llywodraeth Cymru, [Ehangu rôl diffoddwyr tân yng Nghymru](#), Tachwedd 2021

18 Llywodraeth Cymru, [Adolygiad thematig o hyfforddiant gweithredol o fewn Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru](#), Hydref 2022



Enghreifftiau o ardaloedd eraill

04

Yr hyn y mae eraill yn ei wneud

- 48 Mae ATAAu ledled y DU wedi llunio gwahanol ddatrysiadau i fynd i'r afael â nifer y galwadau diangen. Maent yn faich sylweddol ar y gorsafoedd lleol ac yn cyfyngu ar yr amser y gellir ei dreulio ar faterion eraill. Canfu ymchwil gan y Swyddfa Gartref¹⁹ fod 63,000 o oriau wedi cael eu gwastraffu yn Lloegr yn ystod 2017-18 o ganlyniad i ymateb i alwadau diangen.
- 49 O ganlyniad, mae gwasanaethau yn Lloegr wedi datblygu ystod o dulliau i helpu i leihau nifer y galwadau diangen yr ymatebir iddynt, sy'n amrywio o ran y defnydd ohonynt (**Arddangosyn 8**).

Arddangosyn 8: dulliau enghreifftiol a ddefnyddiwyd gan ATAAu Lloegr yn 2018

Dull	Disgrifiad	Cyfran ATAAu Lloegr a fabwysiadodd y dull yn 2018
Herio galwadau	Lle mae staff rheoli tân yn gofyn cwestiynau i'r rhai sy'n gwneud galwad i gadarnhau a yw tân yn un go iawn i atal ymateb cyntaf.	93%
Mentrau addysg a gwybodaeth	Rhoddir gwybodaeth neu ddeunyddiau i ddeiliaid adeiladau am yr angen i leihau galwadau diangen.	93%
Dim angen cadarnhad	Anfonir ymateb arferol heb gadarnhad.	76%
Ymatebion wedi'u haddasu	Fe ymatebir ar unwaith ond mae'n llai na'r Ymateb Rhagderfynedig (PDA), e.e. anfonir un injan dân i ymchwilio yn hytrach na thair.	74%
Angen cadarnhad (neu 'ail alwad')	Anfonir ymateb dim ond os ceir galwad i gadarnhau bod tân, neu os oes galwadau lluosog yn cael eu hachosi.	60%
Camau gorfodi	Cymerir camau gorfodi cyfreithiol yn erbyn safleoedd sy'n aml yn achosi galwadau diangen, megis archwiliad o ddiogelwch tân neu ddirwy.	33%

Dull	Disgrifiad	Cyfran ATAAu Lloegr a fabwysiadodd y dull yn 2018
Dirwyon	Codir tâl ar safleoedd â galwadau diangen mynych.	24%
Peidio ag ymateb	Ar ôl rhybudd, nid ymatebir i safleoedd sy'n achosi galwadau diangen yn fynych.	13%

Ffynhonnell: [Ymchwil y Swyddfa Gartref](#)

50 Mae Cymdeithas Genedlaethol y Prif Swyddogion Tân wedi cyhoeddi pecyn cymort²⁰ i gynorthwyo ATAAu gyda'u gwaith i reoli galwadau diangen a'r opsiynau posibl i'w hystyried. Mae'r rhain yn cynnwys:

- peidio ag ymateb i alwadau a ysgogwyd gan Larymau Tân Awtomatig yn ystod y dydd oni bai fod lefel uwch o risg (e.e. risg bod rhywun yn cysgu neu safle risg-uwch fel ysbyty);
- codi tâl ar ddeiliaid adeilad sy'n achosi UwFS yn fynych;
- ei gwneud yn ofynnol i safleoedd gofrestru eu Larymau Tân Awtomatig i'w gwneud yn bosibl monitro'n fanylach i helpu trinwyr galwadau i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth well;
- pennu trothwyon ar gyfer ymateb wedi'i addasu yn seiliedig ar nifer y synwryddion mewn adeilad (e.e. byddai adeilad â 500 o synwryddion yn cael ymateb llawn gyda deg UwFS tra na fyddai adeilad â 100 o synwryddion yn ei gael).
- blaenoriaethu gwaith ar addysgu a hysbysu pobl ynghylch eu cyfrifoldebau a bod â swyddogion wedi'u neilltuo i helpu i hwyluso newid mewn adeiladau/sefydliadau â niferoedd uchel o alwadau diangen.
- ymgysylltu â Chanolfannau Derbyn Larymau i wella'r modd yr ymdrinnir â galwadau ac annog cyrff i gynnal gwiriadau gweledol i gadarnhau bod tân.

51 Mae'r pecyn cymorth ac ymchwil yn dangos ehangder y dulliau sydd ar gael i ATAAu, gan adlewyrchu eu hamgylchiadau lleol a'u parodrwydd i dderbyn risg.

Atodiad 1 - Dull a methodoleg archwilio

Dull

Roedd ein dull yn ymwneud â deall dull pob ATA o leihau galwadau diangen, gan ganolbwyntio'n arbennig ar leoliadau annomestig. Roedd yr adolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn 'A yw'r Awdurdod yn gwneud popeth y gall ei wneud i leihau nifer y galwadau tân diangen annomestig a'i ymatebion iddynt?'. Roedd ein ffocws ar gamau gweithredu'r ATAau, nid y camau gweithredu sydd ar gael i reolwyr adeiladau neu bobl gyfrifol.

Fe gwblhaom ni ein gwaith maes ar draws pob un o'r tri ATA ar wahân, gan ddefnyddio'r un tîm archwilio ar draws y tri chorff. Fe wnaeth hyn ein galluogi i gael mewnwelediadau i bob ATA, yn ogystal â goleuo'r allbwn cenedlaethol hwn.

Fe geisio ni fod yn hyblyg i gyd-fynd ag amserlenni swyddogion wrth drefnu a gwneud ein gwaith maes, gan sicrhau nad oedd ein gwaith yn tynnu oddi wrth waith gweithredol yr ATAau.

Methodoleg

Cwblhawyd ein hadolygiadau rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Mawrth 2023. Fe ddefnyddiom ni ystod o ddulliau i ddod i gasgliadau ar gyfer ein hadolygiadau:

- adolygu dogfennau – fe wnaethom adolygu polisiau a dogfennaeth a ddarparwyd gan bob ATA, yn ogystal ag adolygu gwybodaeth a gyhoeddwyd ganddynt, fel eu gwefan. Hefyd, fe wnaethom adolygu dogfennaeth gan Lywodraeth Cymru, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) a grwpiau cynrychiolaidd.
- dadansoddi data – fe wnaethom ddadansoddi data a ddarparwyd gan yr ATAau a data a oedd ar gael yn gyhoeddus. Roedd hyn yn cynnwys data rheoli, data System Cofnodi Digwyddiadau (IRS) a data arall a oedd ar gael o StatsCymru.
- cyfweiliadau lleol – fe gyfwelom ni â swyddogion a enwebwyd gan yr ATAau a oedd yn cwmpasu ystod o wahanol feysydd, yn gorfforaethol ac yn lleol. Roedd hyn yn cynnwys y swyddog arweiniol ar gyfer galwadau diangen, swyddogion Diogelwch Tân i Fusnesau, uwch swyddogion ac Aelodau'r Awdurdodau.
- cyfweiliadau cenedlaethol – fe gyfwelom ni â chynrychiolwyr byrddau iechyd lleol, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a Chyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân (NFCC).



Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.